

Adolygiad Rheoli Gwastraff – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3688A2023

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Yr hyn y gwnaethom edrych arno – cwmpas yr archwiliad hwn	4
Pam wnaethom gynnal yr archwiliad hwn?	5
Yr hyn a nodwyd gennym	6
Mae'r Cyngor yn deall pam y mae ei berfformiad wedi dirywio ond mae wedi bod yn araf i fynd i'r afael â hyn; ac er bod y Cyngor yn datblygu strategaeth ddrafft, ceir risgiau sylweddol o hyd i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus	6
Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ddrafft tymor canolig i gyrraedd targedau ailgylchu statudol ond mae risgiau sylweddol i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus	8
Mae'r Cyngor wedi costio elfennau o'i strategaeth wastraff ddrafft yn y tymor byr ond nid yw mewn sefyllfa eto i gostio'n llawn ei ddull gweithredu tymor hwy	10
Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu sut y bydd yn asesu ac yn monitro gwerth am arian y strategaeth wastraff na'i gyfraniad at amcanion strategol ehangach y Cyngor	11
Mae'r Cyngor yn ceisio dysgu gwersi i wella ei berfformiad ailgylchu	12
Argymhellion	12
Atodiadau	
Atodiad 1: cwestiynau allweddol a'r hyn roeddem yn edrych amdano	13

Adroddiad cryno

- 1 Mae perfformiad gwastraff y Cyngor wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf o ran y ganran wirioneddol o wastraff a gaiff ei aildefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio a hefyd o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.
- 2 Nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei darged ailgylchu statudol am dair blynedd yn olynol hyd at ac yn cynnwys 2021-22, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rhagwelwyd hefyd y byddai'n methu â chyrraedd y targed eto ar gyfer 2022-23 Gall Llywodraeth Cymru godi cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio â'r targedau, ond hyd yma nid yw wedi cymhwyso'r rhain i'r Cyngor.
- 3 Adolygydd i ba raddau y mae'r Cyngor yn deall y rhesymau dros y dirywiad yn ei berfformiad ailgylchu a'i gynlluniau i fynd i'r afael â hyn.
- 4 Ar y cyfan, nodwyd gennym fod y Cyngor yn deall pam y mae ei berfformiad wedi dirywio ond mae wedi bod yn araf i fynd i'r afael â hyn; ac er bod y Cyngor yn datblygu strategaeth ddrafft, ceir risgiau sylweddol o hyd i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus.
- 5 Bydd hefyd yn bwysig i'r Cyngor weithredu'n gyflym i wneud y newidiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol os yw am gyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol ac osgoi'r risg o gosbau ariannol.

Yr hyn y gwnaethom edrych arno – cwmpas yr archwiliad hwn

- 6 Gwnaethom ganolbwyntio ar ddull y Cyngor o ailgylchu gwastraff gan gynnwys ei berfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol a'i gynlluniau i ysgogi gwelliant yn ei berfformiad. Ni wnaeth yr archwiliad hwn archwilio'n fanwl yr holl wasanaethau rheoli gwastraff a ddarperir gan y Cyngor.
- 7 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda detholiad o swyddogion ac aelodau gweithredol. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2023. Buom hefyd yn dadansoddi data perfformiad ailgylchu a gynhyrchwyd gan Stats Cymru dros nifer o flynyddoedd (gweler **Arddangosyn 1**). Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn.
- 8 Aethom ati i ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?**
- 9 Gwnaethom hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
 - A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu a sut y gallai newid dros amser?
 - A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni ar gyfer ei berfformiad ailgylchu?

- A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir?
- A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni'r cynlluniau i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol fel y gall sicrhau manteision hirdymor/ataliol?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?
- A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio i gyflawni yn erbyn ei dargedau ailgylchu?

Pam wnaethom gynnal yr archwiliad hwn?

- 10 Cyflawnwyd yr archwiliad hwn er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 11 Gwnaethom geisio helpu i:
- roi sicrwydd bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a'i fod yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
 - rhoi cipolwg ar sut y gallai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau; a sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Arddangosyn 1: ffaith allweddol


Ffeithiau Allweddol

Gwariant refeniw net y Cyngor ar wasanaethau gwastraff ar gyfer 2021-22 oedd tua Cyfanswm o £14 miliwn, sef tua £77 fesul preswlydd¹.

¹ Data alldro refeniw, Stats Cymru

Arddangosyn 2: gwariant refeniw net y Cyngor ar wastraff fesul preswlydd o'i gymharu â chynghorau eraill

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gwariant refeniw a wariwyd gan y Cyngor fesul preswlydd bob blwyddyn rhwng 2008-09 a 2021-22 o'i gymharu â'r 21 o gynghorau eraill yng Nghymru.



Yr hyn a nodwyd gennym

Mae'r Cyngor yn deall pam y mae ei berfformiad wedi dirywio ond dim ond yn ddiweddar y mae'n dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â hyn

- 12 Mae'r Cyngor yn deall pam y mae ei berfformiad wedi dirywio ond dim ond yn ddiweddar y mae'n dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau hirdymor ar gyfer ailgylchu ac aildddefnyddio gwastraff trefol. Gall Llywodraeth Cymru godi cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio. Y targed statudol ar gyfer 2019-20 ymlaen oedd 64% ac mae'r targed ar gyfer 2024-25 yn codi i 70%. Nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd y targed ar gyfer 2019-20, 2020-21 a 2021-22, a rhagwelir y bydd yn methu â chyrraedd y targed eto ar gyfer 2022-23.
- 13 Rhwng 2017-18 a 2021-22 mae perfformiad cymharol y Cyngor wedi dirywio o'r pedwerydd uchaf yng Nghymru, ac ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, i'r isaf ond un yng Nghymru ac ymhell islaw cyfartaledd Cymru, gan adlewyrchu dirywiad sylweddol mewn perfformiad.

Arddangosyn 3: Canran gwastraff y Cyngor a gaiff ei aildddefnyddio/ailgylchu/gompostio: perfformiad blynyddol²

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos perfformiad y Cyngor a sut mae hyn yn cymharu â'r 21 prif gyngor arall yng Nghymru.

	Perfformiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (%)	Roedd y Safle Cenedlaethol yn cymharu'r 21 prif gyngor arall yng Nghymru	Cyfartaledd yng Nghymru (%)
2017-18	66.7	4ydd	62.7
2018-19	65.1	6ed	62.8
2019-20	62.5	20fed	65.1
2020-21	61.9	21ain	65.4
2021-22	59.7	21ain	65.2

- 14 Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod eang o ffonellau tystiolaeth i ddeall y ffactorau cyfredol sy'n effeithio ar ei berfformiad ailgylchu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi llif data gwastraff, dadansoddi data a ddarparwyd gan WRAP Cymru, perfformiad contractau a meincnodi ei ddull gweithredu gyda chynghorau eraill. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i nodi sawl rheswm dros ei berfformiad cymharol wael, gan gynnwys:
- lefel gymharol uchel o wastraff gweddilliol yn cael ei greu yn y fwrdeistref sirol.
 - cyfranogiad ailgylchu isel ymhlith preswylwyr gan arwain at lawer iawn o wastraff bwyd o fewn ei ffrwd gwastraff gweddilliol. Mae tua 25% o wastraff gweddilliol yn wastraff bwyd.
 - nid yw ei drefniadau casglu gwastraff a gorfodi wedi cyd-fynd â datblygiadau mewn awdurdodau cyfagos.
 - Mae prawf o wiriadau preswyllo mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref (CAGC) wedi lleihau cyfanswm y gwastraff a adawyd yn y safleoedd hyn ond hefyd wedi lleihau faint o ailgylchu a adawyd.
- 15 Mae'r Cyngor yn ceisio deall achosion sylfaenol cyfraddau cyfranogiad ailgylchu isel ymhlith preswylwyr. Mae wedi comisiynu cymorth allanol i'w helpu i ddeall yn well y rhwystrau ymddygiadol i ailgylchu ymhlith preswylwyr. Mae hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddio dulliau mapio data i ddatblygu argymhellion i lywio strategaeth wastraff ddrafft y Cyngor.
- 16 Er bod ganddo ddealltwriaeth dda o'r rhesymau dros ei berfformiad sy'n dirywio, mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â nhw. Rydym yn cydnabod ei bod yn anochel bod ymateb i'r pandemig wedi cymryd blaenoriaeth yn ystod rhywfaint

² [Cyfraddau aildddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol gan awdurdod lleol \(gov.wales\)](#)

o'r cyfnod hwn. Fodd bynnag, methodd y Cyngor gyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol am y tair blynedd diwethaf a rhagwelir y bydd yn methu â'u cyrraedd am bedwaredd flwyddyn yn olynol. Wrth fethu â chyrraedd y targedau, mae'r Cyngor mewn perygl o wynebu cosbau ariannol o £200 y dunnell gan Lywodraeth Cymru. Ni chodwyd y cosbau hyd yma. Fodd bynnag, yn seiliedig ar berfformiad ailgylchu'r Cyngor, pe bai Llywodraeth Cymru wedi penderfynu codi'r cosbau, er enghraifft, byddai'r gost i'r Cyngor wedi bod yn £1.2 miliwn ar gyfer 2021-22. Mae cyfraddau ailgylchu cymharol isel y Cyngor hefyd o bosibl yn effeithio ar flaenoriaethau strategol ehangach y Cyngor, er enghraifft, cyhoeddodd y Cyngor argyfwng hinsawdd yn 2019.

- 17 Mae fframwaith perfformiad y Cyngor yn cynnwys yr elfennau canlynol: Asesiadau Perfformiad Corfforaethol (CPAs), Cyfarwyddwr Asesu Perfformiad (DPA) Cynllunio Gwasanaeth, a My Time Extra. Mae CPAs yn cael eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet; a chaiff y DPA ei fonitro a'i adolygu mewn Timau Rheoli Cyfarwyddwyr bob chwarter.
- 18 Rhannwyd DPA yr Economi a'r Amgylchedd, lle mae data ailgylchu wedi'u cynnwys, â'r pwyllgor craffu perthnasol hyd at fis Chwefror 2022. Er gwaethaf y perfformiad ailgylchu cymharol wael a methu â chyrraedd targedau statudol dros nifer o flynyddoedd, nid oes tystiolaeth o herio na monitro perfformiad effeithiol gan y pwyllgor craffu perthnasol yn y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, nid yw'r Pwyllgor Gwaith wedi cael ei ddwyn i gyfrif yn dryloyw am berfformiad y Cyngor yn y maes hwn.

Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ddrafft tymor canolig i gyrraedd targedau ailgylchu statudol ond mae risgiau sylweddol i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus

- 19 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ddrafft drosfwaol a gynlluniwyd i gyrraedd ei dargedau statudol ar gyfer y pum mlynedd nesaf hyd at 2027. Mae'n canolbwyntio ar gyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70% sydd i ddod yn ystod y cyfnod hwnnw. Datblygwyd y strategaeth ddrafft yn gyflym i gyrraedd ei thargedau ailgylchu ac osgoi'r risg o gosbau ariannol, ac felly nid yw wedi'i hategu eto gan gynlluniau gweithredu/gweithredu ag adnoddau llawn.
- 20 Os yw'r Cyngor am wella ei berfformiad ailgylchu cyffredinol ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol i gyrraedd targedau statudol, bydd yn bwysig sicrhau bod aelodau etholedig yn cymeradwyo'r cynigion, a bod y Cyngor yn gweithredu'n gyflym i wneud y newidiadau i'w wasanaethau gwastraff y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol.
- 21 Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w ddull o ailgylchu a rheoli gwastraff, ac yn cyfeirio at y saith nod llesiant cenedlaethol.

- 22 Nid yw'r Cyngor wedi ystyried effaith y strategaeth ddrafft ar awdurdodau cyfagos eto, er y dywedwyd wrthym ei fod yn bwriadu gwneud hynny. Mae hyn yn cynyddu'r risg na fydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, drwy ystyried a allai ei gamau gweithredu effeithio ar amcanion llesiant cyngorau eraill a sut.
- 23 Yn 2019, cyhoeddodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ac ymrwmo i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Fel rhan o'r ymdrechion hyn, mabwysiadwyd Strategaeth Datgarboneiddio i gefnogi'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi bod yn araf i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â gwastraff ac ailgylchu sy'n effeithio ar flaenoriaethau'r Strategaeth Datgarboneiddio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai'r pandemig wedi effeithio ar gynnydd y Cyngor.
- 24 Mae'r adran wastraff wedi gweithio gydag adrannau eraill i ddatblygu'r strategaeth, er enghraifft, i ddeall twf rhagamcanol yn y boblogaeth a thai. Mae hefyd yn ystyried ffyrdd o ddefnyddio adnoddau'n wahanol ar draws adrannau i gyflawni'r strategaeth mewn ffyrdd a allai sicrhau nifer o fuddion neu wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau gyda'r potensial i gyflwyno nifer o fuddion. Mae nodi cyfleoedd a mentrau, a'u rhoi ar waith, er mwyn sicrhau nifer o fuddion yn cyd-fynd â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae ganddo hefyd y potensial i wella'r gwerth am arian a gafwyd o adnoddau'r Cyngor.
- 25 Nid yw'r Cyngor wedi pennu ei strategaeth tymor hwy eto. Mae'n cydnabod nad yw ei strategaeth ddrafft yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer y tymor hwy, gan fod y targedau statudol yn debygol o gynyddu. Mae risg o hyd nad yw'r Cyngor, sydd nawr angen gweithredu'n gyflym a blaenoriaethu cynnydd tymor byr tuag at gyrraedd targedau ailgylchu, yn gallu cydbwysu ei ffocws ar y tymor byr ag ystyriaethau tymor hwy.
- 26 Yn dilyn mentrau tebyg a gyflwynwyd gan gynghorau eraill, ym mis Hydref 2022, agorodd y Cyngor ei Siop Aildefnyddio gyntaf. Mae'r cyfleuster gollwng newydd hwn wedi llwyddo i aildefnyddio ac ailwerthu mwy na 13,000 o eitemau. Yn ogystal â chynhyrchu lefelau incwm o tua £1,000 yr wythnos, mae hefyd wedi lleihau faint o wastraff sydd i'w waredu. Dylai hyn helpu'r Cyngor i gyrraedd ei dargedau statudol gan hefyd ddarparu budd ehangach i gymunedau lleol.
- 27 Nid yw'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu ei strategaeth ddrafft. Gan fod y strategaeth ddrafft wedi'i datblygu ar fyrder, ni chynhaliodd y Cyngor unrhyw weithgarwch cynnwys sylweddol wrth ei datblygu. Felly, mae'n rhy gynnar i asesu pa mor dda y mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynigion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu ymgyrch cyfathrebu ac ymgysylltu â'r boblogaeth gyfan ar gyfer newidiadau penodol i wasanaethau gwastraff ar ôl i gynghorwyr ystyried y strategaeth ddrafft. Gan fod perfformiad ailgylchu'r Cyngor yn dibynnu'n rhannol ar gefnogaeth ac ymddygiad preswylwyr, mae gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu yn debygol o fod yn allweddol i'r Cyngor gyrraedd ei dargedau statudol.

- 28 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob un o'r cynigion yn y strategaeth ddrafft eto, ond mae'n bwriadu i'r rhain gyd-fynd â'r cynigion yn y strategaeth ddrafft pan fydd yn mynd drwy'r broses wleidyddol. Bydd asesu effaith cynigion ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn bwysig i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, ond hefyd i ddeall effaith cynigion ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Gweithio mewn Partneriaeth

- 29 Mae gan y Cyngor hanes o weithio gyda phartneriaid i ddarparu ei wasanaethau gwastraff. Er enghraifft:
- drwy Brosiect Gwyrdd, consortiwm i waredu gwastraff gweddilliol a gesglir wrth ymyl y ffordd.
 - mae gweithio gyda The Furniture Revival (Rhymni) sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth i wella'r economi gylchol yn gweithio'n dda o ran mewnbwn ac aildefnyddio gwastraff.
 - Gweithio gyda Waste Savers i redeg y Siop Aildefnyddio (gweler **paragraff 26** uchod).
- 30 Mae'r Cyngor yn bwriadu ymchwilio i ragor o gyfleoedd gweithio mewn partneriaeth wrth weithredu ei strategaeth wastraff ddrafft, megis cyfleoedd cydweithio posibl ar farchnadoedd ailgylchu a chael gwared ar ddeunyddiau anodd eu hailgylchu. Fodd bynnag, gan nad yw'r strategaeth ddrafft wedi'i chymeradwyo eto, ni all y Cyngor benderfynu'n derfynol gyda phwy a sut y gallai gydweithio i wella gwerth am arian ei wasanaethau. Gan fod pob cyngor yn ymdrin â materion tebyg mewn perthynas â gwastraff ac ailgylchu, mae'n debygol y bydd rhagor o gyfleoedd i archwilio dulliau cydweithredol o wella perfformiad a sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi costio elfennau o'i strategaeth wastraff ddrafft yn y tymor byr ond nid yw mewn sefyllfa eto i gostio'n llawn ei ddull gweithredu tymor hwy

- 31 Mae'r Cyngor wedi costio'r cynigion tymor byr yn ei strategaeth ddrafft ac wedi ystyried yr adnoddau y gallai fod eu hangen arno i gyrraedd targedau statudol yn y tymor hwy. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai fod angen buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith ar gyfer cynigion tymor hwy, gan gynnwys yr angen o bosibl am orsaf trosglwyddo gwastraff newydd a buddsoddi yn ei seilwaith fflyd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r cynigion tymor hwy wedi'u costio gan nad yw'r Cyngor wedi cwblhau ei strategaeth tymor hwy eto. Er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus ar agweddau tymor hwy y

strategaeth, bydd yn bwysig bod opsiynau'n cael eu costio'n llawn cyn gwneud penderfyniadau.

- 32 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddyrannu adnoddau i gyflawni'r strategaeth. Nid yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol y Cyngor yn esbonio'n benodol os a sut y bydd cyllid yn cael ei flaenoriaethu i gyflawni'r strategaeth wastraff yn 2023-24, gan fod y strategaeth ar ffurf drafft pan luniwyd y CATC. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn hyderus y bydd adnoddau'n cael eu dyrannu i gyflawni'r cynigion yn y strategaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl gwireddu arbedion effeithlonrwydd o weithredu rhai o'r cynigion yn y strategaeth.

Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu sut y bydd yn asesu ac yn monitro gwerth am arian y strategaeth wastraff na'i gyfraniad at amcanion strategol ehangach y Cyngor

- 33 Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnwys mesurau yn erbyn ei hamcanion tymor byr a chanolig i gyrraedd targedau ailgylchu statudol dros y pum mlynedd nesaf. Nid yw'r strategaeth ddrafft yn nodi mesurau tymor hwy i gyrraedd y targedau statudol mwy heriol y mae'r Cyngor yn rhagweld y byddant yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i fonitro ei berfformiad yn y tymor byr a'r tymor canolig, ond nid yw'n gallu cyfathrebu a mesur cynnydd yn erbyn amcanion tymor hwy. Rydym yn ymwybodol bod y Cyngor yn datblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd, sy'n rhoi cyfle i'r Cyngor fyfyrion ar hyn.
- 34 Mae adroddiad Hunanasesu Blyneddol diweddaraf y Cyngor ar gyfer 2021-22 yn nodi'r angen i wella faint o wastraff bwyd sy'n cael ei ailgylchu, ond nid yw'r asesiad yn cynnwys gwerthusiad o'r perfformiad ailgylchu cymharol wael nac yn crybwyll nad yw'r Cyngor wedi cyrraedd targedau statudol ers sawl blwyddyn. Mae'r diffyg gwybodaeth hwn yn lleihau gallu cynghorwyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall perfformiad y Cyngor yn ei gyd-destun a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef. Mae hefyd o bosibl yn lleihau defnyddioldeb yr adroddiad hunanasesu i gefnogi dysgu ac atebolrwydd.
- 35 Nid yw'r Cyngor wedi ystyried eto sut i fonitro a gwerthuso gwerth am arian y cynigion yn ei strategaeth ddrafft na monitro cyfraniad y strategaeth at amcanion strategol ehangach y Cyngor. Heb y wybodaeth hon, mae'r Cyngor mewn perygl o fetu â sicrhau bod ei drefniadau'n sicrhau gwerth am arian a bod ei ddull manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion llesiant.

Mae'r Cyngor yn ceisio dysgu gwersi i wella ei berfformiad ailgylchu

- 36 Mae'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn ceisio dysgu gwersi i wella ei berfformiad. Er enghraifft, mae'n cymryd camau i wella ei drefniadau rheoli contractau ac yn cymryd camau i wella perfformiad un o'i gontractau ailgylchu allweddol. Mae'r Cyngor hefyd yn cymharu cost a pherfformiad ei wasanaeth gwastraff, gan gynnwys ailgylchu masnachol drwy ei aelodaeth o glwb meincnodi. Mae swyddogion wedi defnyddio eu gwybodaeth am ddulliau cynghorau eraill i lywio'r strategaeth wastraff ddrafft ac mae'r Cyngor hefyd yn cymryd camau i ddeall y rhesymau pam y mae ei gyfraddau ailgylchu gwastraff bwyd yn gymharol isel.
- 37 Bydd hi'n bwysig i'r Cyngor barhau i adolygu effeithiolrwydd ei ddull gweithredu ac yn cymryd camau amserol i ymyrryd, os yw am wella a chynnal ei berfformiad yn unol â thargedau ailgylchu statudol.

Argymhellion

Arddangosyn 4: argymhellion

Gwerth am Arian a Mesurau Llesiant

- A1 Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd yn monitro ac yn gwerthuso gwerth am arian ei strategaeth wastraff ar ôl ei chwblhau a chyfraniad y strategaeth at Amcanion Llesiant y Cyngor.

Strategaeth tymor hwy

- A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu a chytuno ar strategaeth wastraff tymor hwy sydd wedi'i chostio a'i hariannu'n llawn, a all gyrraedd y targedau statudol presennol ac yn barod ar gyfer y cynnydd posibl mewn targedau statudol yn y dyfodol.

Atodiad 1

Cwestiynau allweddol a'r hyn roeddem yn edrych amdano

Arddangosyn 5: cwestiynau allweddol a'r hyn roeddem yn edrych amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr aethom ati i'w ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i ddod i'n canfyddiadau.

Lefel 1	A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	
Lefel 2	Lefel 3	Meini Prawf Archwilio (Mae'r Cyngor wedi ystyried argymhellion a chyngor perthnasol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol lle bo'n briodol)
1. A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu a sut y gallai newid dros amser?	1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' (hy yr angen presennol/galw/perfformiad/costau/materion i fynd i'r afael â nhw) a'r rhesymau pam/achosion sylfaenol?	Mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid. Mae'r Cyngor yn meincnodi ei gostau, perfformiad a phrosesau o safbwynt gwerth am arian. Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei sylfaen dystiolaeth i nodi'r camau gweithredu sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau, ac mae'n llywio penderfyniadau sy'n ceisio cydbwysu'r angen i gyflawni amcanion tymor byr a thymor hwy.
	1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor a fydd yn effeithio ar berfformiad ailgylchu a'r heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o hynny (ee risgiau a chyfleoedd)?	

Lefel 1	A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	
Lefel 2	Lefel 3	Meini Prawf Archwilio (Mae'r Cyngor wedi ystyried argymhellion a chyngor perthnasol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol lle bo'n briodol)
2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni ar gyfer ei berfformiad Ailgylchu?	2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol?	Mae'r Cyngor wedi ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu yn y cyd-destun hwn ac wedi gosod amserlen briodol (ee deng mlynedd, 25 mlynedd neu fwy). Mae wedi ystyried sut y gall camau gweithredu sicrhau'r effaith orau dros yr amserlen honno, mae wedi nodi mesurau sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol. Mae wedi nodi sut y bydd y cynlluniau'n cael adnoddau dros y tymor hwy cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol

Lefel 1	A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	
Lefel 2	Lefel 3	Meini Prawf Archwilio (Mae'r Cyngor wedi ystyried argymhellion a chyngor perthnasol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol lle bo'n briodol)
	<p>2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai eu cael, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol? • Sut bydd cyflawni yn effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (hy ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)? • Sut bydd cyflawni yn effeithio ar eraill yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (hy eu hamcanion llesiant)? 	<p>Mae'r Cyngor wedi ystyried y cyfraniad a'r cysylltiadau rhwng llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol/y saith nod llesiant cenedlaethol (gan gynnwys sut y gallai hyn ei helpu i gyflawni buddion ataliol, system gyfan).</p> <p>Mae staff wedi ceisio integreiddio eu gwaith gyda gwaith eu cydweithwyr ar draws y sefydliad a sefydliadau partner ac wedi rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol, yn agored ac yn dryloyw gyda'u cydweithwyr a phartneriaid.</p> <p>Mae'r Cyngor yn deall yr hyn y mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut mae eu gwaith yn berthnasol, ac mae integreiddio'n amlwg mewn strategaethau/dogfennau allweddol, gan gynnwys amcanion/blaenoriaethau cydgysylltiedig a mesurau perfformiad.</p>

Lefel 1	A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	
Lefel 2	Lefel 3	Meini Prawf Archwilio (Mae'r Cyngor wedi ystyried argymhellion a chyngor perthnasol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol lle bo'n briodol)
	2.3 Wrth ddatblygu ei gynlluniau, a yw'r Cyngor yn rhoi sylw dyledus i'w ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: <ul style="list-style-type: none"> • Dyletswyddau cydraddoldeb • Economaidd-gymdeithasol 	Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith bosibl ei gynlluniau ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig ac wedi addasu ei gynlluniau os yn briodol o ganlyniad. Mae tystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried y gall ei gynlluniau wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef mantais economaidd-gymdeithasol ac wedi addasu ei gynlluniau os yw'n briodol o ganlyniad.
3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir?	3.1 A yw'r Cyngor wedi nodi pwy y mae angen iddo eu cynnwys wrth ddylunio a chyflawni cynlluniau i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o bwy fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol a phwy y mae angen iddo eu cynnwys, ac mae'n ceisio amrywiaeth lawn o safbwyntiau, gan gynnwys gan ffynonellau anhraddodiadol a'r rhai y gallent fod wedi methu â chyrraedd yn flaenorol.

Lefel 1	A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	
Lefel 2	Lefel 3	Meini Prawf Archwilio (Mae'r Cyngor wedi ystyried argymhellion a chyngor perthnasol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol lle bo'n briodol)
	3.2 A yw'r Cyngor yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth yn effeithiol?	Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar y gwaith dylunio a chyflawni o gyfnod cynnar. Mae wedi meithrin perthnasoedd aeddfed ac ymddiriedus, gan rannu gwybodaeth mewn ffordd onest, agored a thryloyw a darparu adborth ar sut y'i defnyddiwyd. Mae wedi defnyddio canlyniadau cyfranogiad i siapio cynllunio/cyflawni ac mae'n tynnu ar arfer da.
	3.3 A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r partneriaid cywir?	Mae'r Cyngor wedi nodi'r partneriaid y mae angen iddo weithio gyda nhw i gyflawni ei weledigaeth a'i amcanion ac mae ganddo ddealltwriaeth glir o sut y gallai weithio gydag eraill a'r heriau allweddol y maent yn eu hwynebu. Mae ffocws ar le a chanlyniadau gwell.
	3.4 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol â'r partneriaid cywir?	Mae gan y Cyngor berthnasoedd aeddfed ac ymddiriedus gyda'i bartneriaid, oherwydd, er enghraifft: mae'n buddsoddi amser a gallu mewn gweithio mewn partneriaeth; mae'n rhannu neu'n cyfuno adnoddau ariannol neu anariannol ac mae wedi datblygu ffyrdd cyffredin o weithio.

Lefel 1	A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	
Lefel 2	Lefel 3	Meini Prawf Archwilio (Mae'r Cyngor wedi ystyried argymhellion a chyngor perthnasol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol lle bo'n briodol)
4. A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni'r cynlluniau i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol fel y gall sicrhau manteision hirdymor/ataliol?	4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau hirdymor?	Mae'r Cyngor yn deall manteision buddsoddi mewn dulliau ataliol, hirdymor a'r gost (yn ariannol ac o ran canlyniadau) o beidio â gwneud hynny. Mae wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni canlyniadau cynlluniedig dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) a sut y gallai reoli risgiau/cwrdd â'r costau hynny, ac mae'n ceisio lleihau gwastraff/effaith negyddol ar adnoddau drwy gydol y cyfnod cyflawni.
	4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau i sicrhau canlyniadau gwell yn y tymor hir?	Mae'r Cyngor wedi ystyried yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni canlyniadau cynaliadwy, mwy hirdymor a sut y gallai reoli unrhyw risgiau. Mae wedi cymryd camau (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau gwell a/neu hyrwyddo a chefnogi defnydd o adnoddau yn y tymor hwy. Mae'n ystyried sut y gellir defnyddio cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion mewn ffordd integredig

Lefel 1	A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	
Lefel 2	Lefel 3	Meini Prawf Archwilio (Mae'r Cyngor wedi ystyried argymhellion a chyngor perthnasol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol lle bo'n briodol)
5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?	5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy?	Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol. Mae'r mesurau hyn yn adlewyrchu: cyflawni canlyniadau sy'n ymwneud â llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, asesu costau a pherfformiad ariannol.
6. A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio i gyflawni yn erbyn ei dargedau ailgylchu?	6.1 A yw'r Cyngor yn ceisio dysgu gwersi o'i berfformiad ei hun i wella ei drefniadau?	Mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad, cyllideb a gwybodaeth berthnasol arall i wneud gwelliannau i'w drefniadau
	6.2 A yw'r Cyngor yn ceisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gynnwys?	Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei weithgarwch cynnwys, ac mae'n dysgu gwersi (o lwyddiant a methiant) ac yn gwella ei gyfranogiad.

Lefel 1	A yw'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwastraff ac a oes ganddo gynlluniau cadarn i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol?	
Lefel 2	Lefel 3	Meini Prawf Archwilio (Mae'r Cyngor wedi ystyried argymhellion a chyngor perthnasol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol lle bo'n briodol)
	6.3 A yw'r Cyngor yn ceisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gydweithio?	Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol ac mae'n dysgu gwersi (o lwyddiant a methiant) ac yn gwella ei gydweithio



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.